OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 545 (Cy. 119)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2019

*Gwnaed - - - - 12 Mawrth 2019*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 13 Mawrth 2019*

*Yn dod i rym - - 29 Ebrill 2019*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 87, 92, 94A a 196(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**).

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 29 Ebrill 2019.

**Diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018**

**2.** Mae Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn—

(a) yn rheoliad 7(1) (gofyniad i benodi rheolwr awdurdod lleol), yn lle "un o'i swyddogion" rhodder "swyddog";

(b) yn nhestun Cymraeg rheoliad 10(5) (gofyniad i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau), yn lle "baragraff (1)(a), (b), (g) ac (i)" rhodder "baragraff (1)(a), (b), (c) ac (h)";

(c) yn nhestun Saesneg rheoliad 11 (dyletswydd gonestrwydd)—

(i) yn lle paragraff (d) rhodder—

"(d) in the case of a child who is placed with an area authority, that area authority.";

(ii) hepgorer paragraff (e);

(**1**) 2014 dccc 4; *gweler* adran 197(1) am y diffiniad o "rheoliadau" a "penodedig", "a bennir" ac "a bennwyd".

(**2**) O.S. 2018/1339 (Cy. 261).

(d) yn rheoliad 26(1) (mynediad i wasanaethau iechyd), yn lle "iechyd a datblygiad" rhodder "iechyd a datblygiad corfforol, meddyliol ac emosiynol";

(e) yn rheoliad 29(2)(e) (addasrwydd staff), yn lle "1 Medi 2022" rhodder "1 Ebrill 2022".

*Julie Morgan*
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

12 Mawrth 2019

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018 (O.S. 2018/1339 (Cy. 261)) ("Rheoliadau 2018").

Mae rheoliad 2(a) yn diwygio rheoliad 7 o Reoliadau 2018 er mwyn caniatáu i ddarparwr awdurdod lleol benodi swyddog o awdurdod lleol arall i fod yn gyfrifol am reoli'r gwasanaeth maethu.

Mae rheoliad 2(b) yn gwneud diwygiad i destun Cymraeg rheoliad 10 o Reoliadau 2018, i sicrhau cyfwerthedd â'r testun Saesneg.

Mae rheoliad 2(c) yn gwneud diwygiad i destun Saesneg rheoliad 11 o Reoliadau 2018, i sicrhau cyfwerthedd â'r testun Cymraeg.

Mae rheoliad 2(d) yn diwygio rheoliad 26 o Reoliadau 2018 i bennu bod y cyfeiriad yn y rheoliad hwnnw at iechyd a datblygiad yn cael ei newid i iechyd a datblygiad corfforol, meddyliol ac emosiynol.

Mae rheoliad 2(e) yn diwygio rheoliad 29 o Reoliadau 2018 fel mai 1 Ebrill 2022 sy'n cael ei roi fel y dyddiad na chaiff darparwyr awdurdodau lleol gyflogi person i reoli'r gwasanaeth maethu awdurdod lleol ohono oni bai bod y person hwnnw wedi ei gofrestru fel rheolwr gofal cymdeithasol â Gofal Cymdeithasol Cymru.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.